| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **13 Mawrth 2025** |
| **Swyddog / Aelod Arweiniol** | **Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant / Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Rheolwr Traffig a Chludiant** |
| **Teitl** | **Incwm Meysydd Parcio** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r incwm ychwanegol o feysydd parcio a ragamcanwyd y byddai'n deillio o gynyddu'r prisiau parcio, ymestyn yr oriau codi tâl am barcio a chodi tâl mewn meysydd parcio a oedd am ddim yn flaenorol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae'r rhagamcanion presennol yn amcangyfrif y bydd yr incwm ychwanegol o feysydd parcio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25 yn sylweddol is na'r targed a ragwelwyd yn wreiddiol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod Pwyllgor Craffu Perfformiad yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cyflwyno sylwadau ar ganfyddiadau'r adroddiad a'r camau gweithredu arfaethedig.

3.2. Bod y swyddogion yn datblygu fframwaith prisiau meysydd parcio arfaethedig newydd, ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu yn yr Hydref 2025.

# 4. Manylion yr adroddiad

Cefndir

4.1. Fel rhan o’r gwaith i gyflawni arbedion a chynyddu incwm ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, bu i ni weithredu’r mesurau canlynol ar gyfer ein meysydd parcio ac fe ragamcanwyd y byddent yn cynhyrchu £699mil o incwm ychwanegol:

- Cynyddu’r prisiau yn ein holl feysydd parcio talu ac arddangos
- Ymestyn yr oriau codi tâl yn y meysydd parcio tan 11pm (5pm yn flaenorol)
- Cynyddu prisiau ein trwyddedau meysydd parcio
- Codi tâl ar gyfer rhai o’n meysydd parcio am ddim

4.2. Roedd y cynnydd a ragwelwyd o £699mil yn cynnwys £591mil o’r cynnydd yn y prisiau, £60mil o godi tâl min nos, £30mil o godi tâl mewn meysydd parcio am ddim, a £18mil o gynyddu’r pris am drwydded. Mae eglurhad o ran sut y cyfrifwyd y ffigyrau unigol hyn yn Atodiad A.

4.3. Mae’r hen brisiau a’r prisiau newydd yn Atodiad B. Roedd y prisiau newydd yn cynrychioli cynnydd sylweddol o gymharu â’r hen brisiau, er mwyn adlewyrchu chwyddiant ers cyflwyno’r prisiau blaenorol ym mis Ebrill 2016.

4.4. Yr incwm parcio gwirioneddol o fis Ebrill i fis Tachwedd 2024, gan gynnwys y misoedd hynny, oedd £1,376mil. Mae hyn yn cymharu â ffigwr o £1,154mil o fis Ebrill i fis Tachwedd 2023. Mae hyn yn gyfystyr â £222mil o incwm ychwanegol dros y cyfnod hwnnw sy’n cynrychioli cynnydd o 19.2%.

4.5. Byddai cymhwyso cynnydd o 19.2% am weddill y flwyddyn ariannol hon yn arwain at £295mil o incwm ychwanegol o gymharu â blwyddyn ariannol 2023-24. Byddai hyn yn cynrychioli diffyg o £404mil yn is na’r targed cynnydd incwm o £699mil.

4.6. Mae’r tabl yn Atodiad C yn cymharu incwm talu ac arddangos fesul tref, ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill i fis Tachwedd 2024, gan gynnwys y misoedd hynny, ac ar gyfer yr un cyfnod yn 2023.

4.7. Mae Atodiad C yn dangos gwahaniaeth mawr yn y cynnydd o ran incwm parcio mewn rhai trefi o gymharu â rhai eraill. Gan eithrio y £30mil sy’n ymwneud â chodi tâl mewn meysydd parcio am ddim, sydd heb ei weithredu eto. Roedd y targed i gynyddu’r incwm o £669mil yn gyfystyr ag oddeutu 45% o gynnydd mewn incwm meysydd parcio. Rhagorwyd ar y canran targed yn Ninbych, Rhuddlan, Rhuthun a Llanelwy, er bod y symiau incwm gwirioneddol ar gyfer Rhuddlan a Llanelwy yn gymharol fychan.

4.8. Ond, yn sylweddol, dim ond 10.1% yw’r cynnydd o fis Ebrill i fis Tachwedd 2024 yn y Rhyl, o gymharu â’r un cyfnod yn 2023. Mae’r ffigwr hwn ar gyfer y Rhyl wedi cael effaith sylweddol ar y ffigwr cyffredinol oherwydd bod incwm meysydd parcio’r Rhyl yn cynrychioli 43% o gyfanswm yr incwm ar gyfer meysydd parcio yn 2023-24.

4.9. Ym Mhrestatyn a Llangollen, a oedd yn cynrychioli 19% a 22% o gyfanswm yr incwm yn 2023-24, yn y drefn honno, gwelwyd cynnydd o tua 30% ar gyfer mis Ebrill - Tachwedd 2024 o gymharu â mis Ebrill - Tachwedd 2023.

4.10. Mae’n debyg bod sawl rheswm pam y bu cynnydd cymharol isel o ran incwm parcio yn y Rhyl o gymharu ag ardaloedd eraill. Fe fu SC2 ar gau dros dro, fe gaewyd yr Acwariwm yn barhaol, a’r gwaith parhaus i amddiffyn yr arfordir sydd wedi lleihau niferoedd yr ymwelwyr ac felly wedi effeithio ar yr incwm parcio.

4.11. Ond, mae’n debygol mai’r ffactor mwyaf sydd wedi effeithio ar y cynnydd cymharol fychan o ran canran incwm parcio’r Rhyl yw bod gan y Rhyl o leiaf 6 o feysydd parcio preifat wedi’u lleoli yng nghanol y dref ac ar y cyrion. Yn gyffredinol mae’r rhain yn rhatach na meysydd parcio’r Cyngor, yn enwedig ar gyfer arhosiad byr o hyd at 3 awr.

4.12. Mae ein polisi presennol o osod prisiau parcio yn ôl y math o faes parcio (h.y. boed yn arhosiad hir neu arhosiad byr) yn anhyblyg ac yn trin pob tref / pentref

fel pe baent yr un fath, ac nid yw hyn yn wir. Yn hytrach, cynigir ein bod yn datblygu system newydd lle bo'r prisiau'n seiliedig ar y galw. Byddai hyn yn golygu codi prisiau uwch ar gyfer meysydd parcio galw uchel h.y. meysydd parcio poblogaidd mewn lleoliadau cyfleus. Yn yr un modd, byddem yna'n codi tâl is mewn meysydd parcio lle bo llai o alw, megis meysydd parcio mewn lleoliadau llai cyfleus.

4.13. Mesur arall a gyflwynwyd i gynyddu'r incwm oedd codi tâl o 8am tan 11pm; (8am tan 5pm yn flaenorol). Er bod hyn yn cynrychioli cynnydd o 67% yn y cyfnod codi tâl, gwnaed tybiaeth y byddai hyn yn golygu cynnydd o 5% mewn incwm talu ac arddangos o gymharu â lefelau incwm parcio 2023-24, lle y cafwyd ffigwr o £60mil ar ôl ei dalgrynnu.

4.14. Mae'r incwm ychwanegol sy'n deillio o godi tâl min nos eisoes wedi'i gynnwys yng nghyfanswm y ffigyrau incwm ar gyfer 2024-25 hyd yma. Mae data gwerthiant tocynnau ar gyfer ystod o feysydd parcio, yn dangos lefelau da o ran gwerthiant tocynnau ar ôl 5pm, gan olygu y rhagorwyd ar y dybiaeth o 5% o incwm ychwanegol yn sgil codi tâl min nos.

4.15. Bu i ni gynyddu costau trwyddedau parcio o fis Ebrill 2024 ymlaen. Mae'r rhain wedi'u dangos yn Atodiad D.

4.16. Bu cynnydd uwch na'r disgwyl o ran incwm trwyddedau, gan fod yr incwm wedi cynyddu o ganran uwch na'r cynnydd mewn prisiau trwyddedau. Mae hyn yn dangos bod mwy o drwyddedau parcio'n cael eu gwerthu, gan dybio bod mwy o gwsmeriaid yn prynu trwyddedau yn hytrach na phrynu tocynnau talu ac arddangos, sydd wedi'i adlewyrchu'n rhannol yn y cynnydd a oedd yn waeth na'r disgwyl yn yr incwm talu ac arddangos.

4.17. Byddwn yn cynyddu costau trwyddedau eto yn 2025-26 gan fod ein trwyddedau yn eithaf rhad o gymharu â'r awdurdodau cyfagos.

4.18. Roedd y cynigion yn cynnwys cyflwyno tâl am barcio ym maes parcio Coetiau Postol, Rhuddlan; y maes parcio yng Ngallt Melyd, a maes parcio'r Llyn Morol.

Mae’r cynnydd o ran hyn wedi bod yn llawer arafach na’r hyn a gynlluniwyd oherwydd lefelau staffio is dros dro.

Argymhellion

4.19. I grynhoi, argymhellir y cymerir y camau canlynol.

a) Datblygu fframwaith newydd ar gyfer codi tâl am feysydd parcio yn seiliedig ar alw.
b) Blaenoriaethu cyflwyno mesurau codi tâl yn y tri maes parcio am ddim sy’n weddill.
c) Cynyddu prisiau trwyddedau parcio ymhellach yn 2025-26.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae’r adroddiad yn cyflwyno’r wybodaeth ddiweddaraf am effaith y cynnydd mewn prisiau meysydd parcio, felly nid yw’n gysylltiedig â darpariaeth y Cynllun Corfforaethol yn uniongyrchol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae lefelau incwm presennol meysydd parcio yn creu pwysau ar gyllideb yr Adain Draffig a Chludiant o oddeutu £400mil, er bod hyn wedi’i wrthbwyso’n rhannol gan lai o wariant mewn meysydd eraill yn yr Adain.

6.2. Bwriedir i’r argymhellion ym mharagraff 4.19 leihau’r diffyg hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1. Mae copi o’r Asesiad o Effaith ar Les a gynhaliwyd ar gyfer y cynnydd mewn prisiau parcio yn 2024 wedi’i gynnwys yn Atodiad F.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Trafodwyd y cynnig i gynyddu'r prisiau ym Mhwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Hydref 2023. Gosodwyd hysbysiadau cyhoeddus statudol ym mhob maes parcio, ar wefan CSDd ac yn y wasg leol.

8.2. Mae adroddiad ar ganlyniadau'r cynnydd mewn prisiau wedi'i adrodd i Fwrdd y Gyllideb a Thrawsnewid yn flaenorol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r adroddiad yn egluro'r fethodoleg, nad oedd yn afresymol, ar gyfer cyfrifo'r cynnydd a ragwelwyd mewn incwm o'r cynnydd mewn taliadau parcio ceir. O ystyried yr heriau ariannol a wynebir gan y Cyngor ac nad oedd taliadau parcio ceir wedi cynyddu ers 2016 roedd angen gosod targed incwm uchelgeisiol. Gan nad yw'r targed wedi'i gyrraedd, mae'r gwasanaeth yn iawn i adolygu'r ffactorau sy'n effeithio ar y canlyniad. Mae rhai ffactorau y tu allan i reolaeth y Cyngor, ni ellid bod wedi eu rhagweld a byddant o ran eu natur yn rhai unwaith ac am byth. Fodd bynnag, mae rhai ffactorau bellach yn hysbys ac mae'n briodol inni adolygu ein hymagwedd at brisiau parcio ceir o ganlyniad.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Yn ogystal â'r gystadleuaeth gan feysydd parcio preifat; gwelwyd sawl ffactor yn cael effaith negyddol ar incwm meysydd parcio ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Roedd y rhain yn cynnwys tywydd anarferol o oer yn ystod sawl wythnos o'r Gwanwyn a'r Haf, a chau atyniadau penodol yn y Rhyl yn enwedig.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Paragraff 8.50 Atodiad 3 i Adran 13 Cyfansoddiad y Cyngor.

11.2. Mae pwerau'r Pwyllgor Craffu wedi'u nodi yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4.1 a 7.4.2 o Gyfansoddiad y Cyngor.